Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational Needs Tribunal for Wales

Cyfarwyddyd Ymarfer

Llofnodion Electronig

1. Daeth Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 i rym ar 6 Mawrth 2012. Roedd y Rheoliadau hyn yn cydgrynhoi ac yn diwygio rheoliadau blaenorol.

2. Mae Adran 81 Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 yn nodi fel a ganlyn:

Pan yw'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn bod dogfen wedi ei llofnodi, bodlonir y gofyniad hwnnw—

(a) os yw'r llofnod wedi ei ysgrifennu; neu

(b) yn achos dogfen a gyfathrebwyd yn electronig yn unol â'r Rheoliadau hyn, gan lofnod electronig y person y mae'n ofynnol iddo'i llofnodi.

3. Mae llofnod electronig yn gyfystyr â llofnod ysgrifenedig, ond ei fod ar ffurf electronig. Mae'n rhoi sicrwydd mai'r bobl y maent yn honni bod yw personau a llofnodwyr negeseuon e-bost.

Ceir sawl ffurf ar lofnodion electronig:

wedi eu teipio
ar ffurf llofnod wedi ei sganio
cynrychioliad electronig o lofnod a ysgrifennwyd â llaw
cyfres unigryw o lythrennau/nodau
cynrychioliad digidol o nodweddion e.e. ôl bys, retina

4. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000 ("Deddf 2000") yn trafod derbynioldeb llofnodion electronig mewn achosion cyfreithiol.

5. Mae'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2000 yn egluro mai mater i'r llys yw penderfynu a ddefnyddiwyd llofnod electronig yn gywir mewn achos penodol, a pha bwys y dylid ei roi arno.

6. Os oes angen llofnodi dogfen, bydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn derbyn llofnod electronig os yw person yn rhoi ei enw yng nghorff yr e-bost ei hun.

7. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r llofnod electronig, gall TAAAC ofyn am lofnod ysgrifenedig er mwyn gwirio a yw'r ohebiaeth yn ddilys.

Dyddiad: 10 Mawrth 2014

Llofnod:

Rhiannon Ellis Walker OBE
Llywydd, TAAAC